# Polisi Cynaladwyedd

**Cefndir**

Ym 1992 cyfarfu 170 o wledydd y byd yng Nghynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd a Datblygiad. Yn y gynhadledd lluniwyd fframwaith ar gyfer gweithredu cynllun byd eang i sicrhau bod ansawdd bywyd cenedlaethau y dyfodol ddim yn cael ei amharu drwy'n gweithgareddau ni heddiw - datblygiad cynaladwy. Gelwir y cynllun yn Agenda 21.

Hanfod Agenda 21 Lleol yw y bod pob rhan o'r gymdeithas yn gweithio mewn partneriaeth a chyfrannu at gynllunio a gweithredu cynllun Agenda 21 Lleol a fydd yn sicrhau ansawdd bywyd uchel, economi llewyrchus a chymunedau hyfyw. Nid rhywbeth ar gyfer y gwleidyddwyr a'r awdurdod lleol yn unig yw Agenda 21 mae'n rhywbeth ar gyfer pob un ohonom i'w weithredu bob dydd yn y gwaith a'r cartref. Mae gweithredu Agenda 21 Lleol yn gofyn i ni feddwl am nifer o faterion fel:

* ansawdd bywyd
* iechyd
* natur yr economi
* defnydd o adnoddau
* tlodi
* addysg
* gwahaniaethu ar unrhyw sail
* bio-amrywiaeth

**Nod**

Ein nod yw i ystyried gofynion Agenda 21 wrth gynnal yr ysgol o ddydd i ddydd, gan greu cymuned sy'n hyddysg ar sut i weithredu ac sy'n ystyried oblygiadau byd cynaladwy.

**Amcanion**

1. Ymroddiad gan gymuned yr ysgol gyfan - y Corff Llywodraethol, yr holl staff dysgu, disgyblion a rhieni i hyrwyddo gweithredoedd cynaladwy.
2. Cynnig arweiniad trawsgwricwlaidd ar fanteision 'Byd Cynaladwy' a'r gweithredoedd y gallwn eu gwneud i hyrwyddo hyn.
3. Dilyn Siarter Ysgolion Gwyrdd a chynllun Ysgolion Iach Gwynedd a Môn
4. Ymuno â chynllun Ysgolion Masnach Deg.
5. Sefydlu a chynnal Gardd Ysgol i addysgu ac i werthfawrogi bioamrywiaeth lleol.

**Strategaethau**

Adolygu'r cynlluniau gwaith ar gyfer Cwricwlwm 2008 a'r Cyfnod Sylfaen gan ystyried cyfleon trawsgwricwlaidd i gyflwyno addysg am fyd cynaladwy.
Dringo drwy wobrau Ysgolion Iach, Gwyrdd a Masnach Deg gan adeiladu arnynt yn flynyddol.

Dyddiad Cymeradwyo: Tymor yr Hydref 2013
Dyddiad Adolygu: Tymor y Gwanwyn 2025

**Llofnodwyd ar ran Cadeirydd y Llywodraethwyr:** Alaw Ceris
**Dyddiad:** 11/12/23